



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif. 1283 (W. 98)

2000 No. 1283 (W. 98)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau-
Man i'r de o Birkenhead (A494)
(Gwelliant yn Nhafarn y Gelyn)
2000

The Dolgellau to South of
Birkenhead Trunk Road (A494)
(Improvement at Tafarn y Gelyn)
Order 2000

Wedi'i wneud 10 Mai 2000

Made 10th May 2000

Yn dod i rym 25 Mai 2000

Coming Into Force 25th May 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(a) a phob pwr galluogi arall.

The National Assembly for Wales makes this Order in exercise of powers conferred by section 10 of the Highways Act 1980(a) and of all other enabling powers:-

1. Daw'r briffordd newydd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

1. The new highway which the National Assembly for Wales proposes to construct along the route described in Schedule 1 to this Order shall become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

2. Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

2. The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

3. Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd a daw'n ffordd ddiddosbarth o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Dinbych bod y gefnffordd newydd yn agored i draffig trwodd.

3. The length of the trunk road described in Schedule 2 to this Order and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be a trunk road and shall become an unclassified road as from the date on which the National Assembly for Wales notifies the County Council of Denbighshire that the new trunk road is open for through traffic.

4. Yn y Gorchymyn hwn mesurir pob pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

4. In this Order all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

i. Ystyr "y plan a adneuwyd"

i. "the deposited plan"

yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 NAFW 2, sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau-Man i'r De o Birkenhead (A494) (Gwelliant yn Nhafarn y Gelyn) 2000", sydd wedi'i lofnodi drwy awdurdod Cynulliad Cenedlaethol

means the plan numbered HA10/2 NAFW 2 marked "The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (Improvement at Tafarn y Gelyn) Order 2000" signed by authority of the National Assembly for Wales and deposited at the

Cymru ac wedi'i adneuo yn Yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

- ii. ystyr “y gefnffordd newydd”
yw'r briffordd a grybwyllir yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;
- iii. ystyr “y gefnffordd”
yw Cefnffordd Dolgellau-Man i'r De o Birkenhead (A494).

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mai

2000 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau-Man i'r De o Birkenhead (A494) (Gwelliant yn Nhafarn y Gelyn) 2000.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amgylchedd.

Dyddiedig y 10 Mai 2000

Pennaeth yr Adran Gweinyddu Ffyrdd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales, Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff

- ii. “the new trunk road”
means the highway mentioned in Article 1 of this Order;
- iii. “the trunk road”
means the Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494).

5. This Order shall come into force on 25th May

2000 and may be cited as the Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (Improvement at Tafarn y Gelyn) Order 2000.

Signed on behalf of the Assembly Secretary for Environment.

Dated the 10th May 2000

D. M. Timlin

Head of Roads Administration Division
National Assembly for Wales

ATODLEN 1

LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

Mae llwybr y gefnffordd newydd yn llwybr sydd wedi'i leoli yn Sir Ddinbych rhwng Llanferres a'r Wyddgrug fel a ganlyn:-

Llwybr rhyw 0.72 cilometr o hyd sy'n dechrau mewn man 115 metr i'r gogledd o gyffordd y ffordd diddosbarth sy'n arwain at Foel Famau a Maeshafn a'r gefnffordd (a adwaenir fel Croesffordd Pen-y-waun), sydd wedi'i farcio Pwynt A ar y plan a adneuwyd) ac yn mynd tua'r gogledd-ddwyrain, gan derfynu mewn man tua 205 metr i'r gogledd-ddwyrain o gyffordd y ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Gilcain, yn Nhafarn y Gelyn, a'r gefnffordd, (sydd wedi'i farcio pwynt B ar y plan a adneuwyd).

SCHEDULE 1

ROUTE OF THE NEW TRUNK ROAD

The route of the new trunk road is a route situated in the County of Denbighshire between Llanferres and Mold as follows:-

A route about 0.72 kilometres in length starting at a point 115 metres north of the junction of the unclassified roads leading to Moel Famau and Maeshafn and the trunk road (known as Pen y Waun Crossroads), marked Point A on the deposited plan) and going in a north easterly direction, terminating at a point about 205 metres north east of the junction of the unclassified road leading to Cilcain, at Tafarn y Gelyn, and the trunk road, (marked point B on the deposited plan).

ATODLEN 2

DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o'r gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n dechrau ar bwynt ar y gefnffordd 285 metr i'r gogledd o Bont y Cacwn (a ddangosir fel AA ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain am ryw 0.45 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd ryw 158 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Gilcain (a ddangosir fel BB ar y plan a adneuwyd),

SCHEDULE 2

LENGTH OF TRUNK ROAD CEASING TO BE A TRUNK ROAD

The length of the trunk road ceasing to be a trunk road is that length of the trunk road starting at a point on the trunk road 285 metres north of Pont y Cacwn (shown as AA on the deposited plan) and extending in a north easterly direction for approximately 0.45 kilometres to a point on the trunk road approximately 158 metres north-east of its junction with the unclassified road to Cilcain (shown as BB on the deposited plan).

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif. 1283 (W. 98)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau-
Man i'r de o Birkenhead (A494)
(Gwelliant yn Nhafarn y Gelyn)
2000

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 1283 (W. 98)

HIGHWAYS, WALES

The Dolgellau to South of
Birkenhead Trunk Road (A494)
(Improvement at Tafarn y Gelyn)
Order 2000

©[®] Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£1.50

WO6095 05/00 ON

ISBN 0-11-090050-2



9 780110 900506